

Dydd Gwener, Rhagfyr 30^{ain}

- **Taith Gerdded Hamddenol i'r Fro** dydd Gwener, Rhagfyr 30^{ain}. Byddwn yn cyfarfod ym maes parcio Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Abergwyngregyn (LL33 0LP) am 10:15 i gychwyn y daith gerdded fydd yn para oddeutu awr a hanner. Byddwch angen esgidiau cerdded neu 'trainers' ac mae'r daith yn addas ar gyfer olwynion. Ychydig o lefydd bwyta fydd ar agor yn yr ardal rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, felly os byddwch yn dymuno mynd am ginio neu fyrbryd, rhowch eich enw i Mair **erbyn nos Fercher, Rhagfyr 28^{ain}** er mwyn i ni allu sicrhau bwrdd yn 'Afon Conwy', Glan Conwy ('does dim angen archebu bwyd ymlaen llaw), neu croeso i chi ddod â phicnic hefo chi. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen y wefan i weld a fydd y daith ymlaen ai peidio, neu croeso i chi gysylltu â Mair.

Dydd Sul, Ionawr 1^{af}

- **Oedfa i'r Fro** – Cynhelir oedfa i'r fro yng Nghapel Groes am 10.30.

Cofion

Â ninnau ar drothwy'r Nadolig, cyflwynwn bawb ohonoch sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn yn dyner i ofal yr Arglwydd. Parhawn i'ch codi yn ein gweddïau a chofiw'n hefyd y rhai ohonoch sydd heb fod cystal eich iechyd y dyddiau hyn, yn arbennig felly Edwin Jones (Peniel) a Selwyn Davies (Nantglyn) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari, a Heather Jones (Llansannan) sydd wedi gorfod mynd yn ôl i Ysbyty Glan Clwyd y penwythnos diwethaf. Da clywed fod Iorwen Roberts (Llansannan) wedi cael dod adref o'r ysbyty – diolchwn am bob gofal y bu iddi ei dderbyn dros y misoedd diwethaf. Mae rhai ohonoch wedi cael llawdriniaeth neu driniaethau eraill amrywiol. Cyflwynwn bob un ohonoch, ynghyd â'ch teuluoedd, i ofal Duw a hyderwn y byddwch yn adnabod cariad Duw yn eich amgylchynu ac yn gwarchod drosoch y Nadolig hwn.

Tŷ ar Osod

Tŷ clyd tair ystafell wely ar gael i'w osod yn Llansannan. Gwres canolog olew a phaneli solar tuag at gost y trydan. Am fanylion pellach a ffurflen gais, cysylltwch â Rhys Dafis (01745) 870362.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📠 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📠 07900 627536

(Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn Rhagfyr 28^{ain}, os gwelwch yn dda.)

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 11 Rhagfyr 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Oedd y newyddion yn annisgwyl? Neu oeddech chi'n synnu dim o glywed yr ystadegau diweddaraf? Dros y pythefnos diwethaf mae canlyniadau Cyfrifiad Cenedlaethol 2021 wedi cael cryn sylw. Y prif benawdau oedd bod 43.6% o bobl Cymru'n uniaethu â Christnogaeth, a'r canran o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng i 17.8%. Wrth ganolbwyntio ar y ffigyrau moel mae'n naturiol eu bod yn cael eu disgrifio fel dirywiad sy'n peri siom i Gymry Cymraeg a Christnogion fel ei gilydd. Ond mae'n rhaid i ni gofio mai math arbennig o ddarlun y mae cyfrifiad yn ei roi. Nid yw'n dweud llawer wrthym am gyflwr cymunedau Cymraeg nac ychwaith beth mae ticio'r blwch Cristnogaeth ar ffurflen yn ei olygu!

Mae'n siŵr eich bod wedi clywed am darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ond os na fydd hynny'n cynnwys cymunedau Cymraeg, slogan wag fydd hi. Prin y gallwn ei gyfri'n llwyddiant cael miliwn o siaradwyr os yw'r iaith Gymraeg yn ddim mwy na sgil y gellir ei defnyddio fel tric mewn parti!

Ac wrth i ni feddwl am Gristnogaeth yng Nghymru, nid faint sy'n ticio bocsy yw'r ffactor allweddol, ond beth yw natur y Gristnogaeth honno. Oherwydd nid i berthynas lled-braich y mae Duw yn ein galw yn Iesu Grist ond i berthynas agos o garu, ymddiried, ac ufuddhau i'r Un a ddioddefodd 'un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw.' (1 Pedr 3:18)

Dyma'r newyddion da sy'n sail i apêl hyfryd un o'n carolau plygain enwocaf:

Am hyn, bechadur, brysia

fel yr wyt,

ymofyn am y noddfa

fel yr wyt;

i ti'r agorwyd ffynnon

a ylch dy glwyfau duon

fel eira gwyn yn Salmon

fel yr wyt,

gan hynny tyrd yn brydlon

fel yr wyt. (Eos lâl)

Mae bod yn wir ddisgybl i Grist yn golygu bywyd newydd a theulu newydd! Fel y gwelwn yn yr adnod uchod, bydd y rhai sy'n ymddiried yng Nghrist yn cael mynediad at Dduw o ganlyniad i aberth y Gwarddwr. Fe gânt hefyd eu huno â'i gilydd yn gorff Crist – cymuned gariadus o bobl a dderbyniodd yr Ysbryd Glân i'w galluogi i foli, gwasanaethu a thystiolaethu i gariad Duw ym mhob oes.

Boed ni'n byw mewn cyfnod o fendith amlwg, neu'n nofio yn erbyn y llif fel lleiafrif yn ein cymunedau, yr un yw galwad Duw i'w bobl: 'Byddwch yn ddi-fai a diddrwg, yn blant di-nam i Dduw yng nghanol cenhedlaeth wyrgam a gwrthnysig, yn disgleirio yn eu plith fel goleuadau yn y byd, yn cyflwyno gair y bywyd.' (Philippiaid 2:15-16)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Rhagfyr 11^{eg}

- **Oedfa i'r Daith (Cefn Meiriadog, Llanfair a Llansannan) yn Llansannan** am 9:30 (sylwch ar y newidiadau) o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri a bydd Leah Davies (Nantglyn) yn cael ei derbyn yn aelod cyflawn yn yr eglwys.
- Bydd Ysgol Sul yn **Llanefydd** ac **yn Henllan** am 10:00.



Dydd Llun, Rhagfyr 12^{fed}

- **Gwasanaeth Carolau ar ZOOM** am 7:00 yr hwyr wedi ei drefnu gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Croeso cynnes i bawb. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071).

Dydd Mawrth, Rhagfyr 13^{eg}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar ZOOM. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Iau, Rhagfyr 15^{fed}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) – Parti Nadolig yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala.

Dydd Sul, Rhagfyr 18^{fed}

- **Gwasanaeth Nadolig y plant a'r oedolion yn Llansannan** am 10:00 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Croeso i bawb!
- **Gwasanaeth Nadolig gan yr aelodau yn Saron** am 10.00. Gwneir casgliad at Gofal Dydd Waengoleugoed, ac fe fydd cyfle i gael paned a sgwrs ar ôl y gwasanaeth.
- **Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog** am 10.30 gyda chyfle i ddilyn am sgwrs dros banded a mins pei. Croeso cynnes i bawb.
- **Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain** am 10.30 gydag ymweliad gan Sion Corn a Pharti Nadolig i ddilyn.
- **Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair** am 11.00 ac i ddilyn, cinio i bawb yn y Neuadd Goffa.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Llanefydd** am 11:00 a Chinio a Pharti Nadolig i ddilyn. Enwau i Erina neu Gwenan erbyn dydd Llun, Rhagfyr 12^{fed}, os gwelwch yn dda.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Groes** am 11:00 gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Henllan** am 2.00 a bydd casgliad arbennig tuag at Shelter Cymru. Yna, yn dilyn y gwasanaeth, bydd Parti Nadolig ac ymweliad gan Siôn Corn. Croeso cynnes i bawb.
- **Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn** am 2.00. Yn dilyn y gwasanaeth, bydd lluniaeth ysgafn ac ymweliad gan Siôn Corn.
- **Gwasanaeth Carolau Plwyf Llanefydd** yng ngolau kannwyll yn yr Eglwys am 6:30 yr hwyr. Bydd lluniaeth ysgafn a chyfle am sgwrs i ddilyn. Gwneir casgliad at Gymdeithas y Beibl.

Dydd Llun, Rhagfyr 19^{eg}

- **'Awn i Fethlehem'** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan am 7.30. Gwneir casgliad tuag at Gofal Dydd Waengoleugoed. Croeso i bawb.

Dydd Mawrth, Rhagfyr 20^{fed}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar ZOOM. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Iau, Rhagfyr 22^{ain}

- **NI FYDD Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) heddiw.

Dydd Sul, Rhagfyr 25^{ain}

- **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** – oedfa yn Llansannan am 9.30.